TRWSIO CYMRU

Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig

EIN CYNLLUN I GAEL CYMRU'N GWEITHIO

MANIFFESTO PLAID GEIDWADOL CYMRU 2026

Hyrwyddwyd gan Kate Vaughan ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, 5 Canolfan Busnes Pro-Copy, Parc Tŷ Glas, Caerdydd, CF14 5DU. Argraffwyd gan PPC, The Barn, 41a Main Rd, Cleeve, Bryste BS49 4NZ.
Promoted by Kate Vaughan on behalf of the Welsh Conservatives, all at 5 Pro-Copy Business Centre, Parc Ty Glas, Cardiff, CF14 5DU. Printed by PPC, The Barn, 41a Main Rd, Cleeve, Bristol BS49 4NZ.

Mae Cymru yn genedl falch gyda photensial aruthrol; mae ganddi gyfoeth o ran talent, cadernid o ran cymuned ac mae'n ganolog i ddyfodol y Deyrnas Unedig. Ond eto, mae llawer gormod o bobl yn ei chael hi'n anodd dod i ben gyda'r hanfodion sylfaenol. Mae cyfnodau hir o aros am driniaeth, costau'n cynyddu i deuluoedd a busnesau, a chyfleoedd sy'n teimlo'n bell o'u cyrraedd oll wedi creu ymdeimlad clir nad yw'r llywodraeth yn cyflawni. Y maniffesto hwn yw ein cynllun i newid hynny – mae'n ymarferol, yn gredadwy, ac yn canolbwyntio ar y pryderon bob dydd sy'n cael eu teimlo gan bobl ar draws Cymru.

Edrychaf ymlaen at weithio'n agos gyda Darren Millar a'i dîm i gyflawni dros Gymru. Ar lefel y DU rydyn ni'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau mae pobl yn eu codi dro ar ôl tro: rheolaeth dros fewnfudo, trethi is fel bod pobl sy'n gweithio'n gallu cadw mwy o'u henillion, a therfyn ar wario gwastraffus nad yw'n adlewyrchu blaenoriaethau'r cyhoedd. Gan weithio gyda'n gilydd, bydd y Ceidwadwyr Cymreig, ynghyd â llais Ceidwadol cryf ar lefel y DU, yn darparu'r bartneriaeth sydd ei hangen ar Gymru.

Ers 27 mlynedd, mae Cymru wedi'i llywodraethu gan yr un blaid. Dros y cyfnod hwnnw, mae gormod o gyfleoedd wedi'u colli: addewidion wedi'u gwneud ac yna'u canslo, fel ffordd liniaru'r M4; gwasanaeth iechyd sy'n wynebu pwysau parhaus; busnesau, ffermwyr, tafarndai a swyddfeydd post yn ei chael hi'n anodd oherwydd costau'n cynyddu. Nid problemau haniaethol mo'r rhain. Maen nhw'n effeithio ar deuluoedd, ar gymunedau, ac ar obeithion y genhedlaeth nesaf. Ar ôl bron i dri degawd, rydyn ni'n disgwyl gwell.

Mae Darren Millar a'i dîm yn cynnig dewis amgen credadwy, dewis amgen go iawn. Mae'r maniffesto hwn yn nodi polisïau ymarferol i gael Cymru'n gweithio eto: torri treth incwm; mynd i'r afael â rhestrau aros yn y GIG; cefnogi busnes a diwydiant gyda chostau ynni is, llai o fiwrocratiaeth ac ymrwymiad o'r newydd i adeiladu a thyfu economi Cymru. Rydyn ni'n credu y dylai Cymru wobrwyo mentergarwch, gweld safonau uchel mewn gwasanaethau cyhoeddus, a rhoi cyfle i bobl ifanc adeiladu eu dyfodol yma, gartref.

Rydyn ni'n glir am yr hyn rydyn ni'n sefyll drosto. Rydyn ni'n credu yn nerth y Deyrnas Unedig a'r diogelwch mae hynny'n ei roi i bensiynau, i swyddi, ac i'n ffyniant cyffredin. Rydyn ni'n gwrthod addewidion gwag pobl y byddai'n well ganddyn nhw hollti ein gwlad, ac ni fydd pleidiau sydd â mwy o ddiddordeb mewn protest na llywodraethu yn dargyfeirio ein sylw. Optimistiaeth sydd wrth wraidd ein ffordd ni. Rydyn ni'n cydnabod bod gormod o bethau nad ydyn nhw'n gweithio fel y dylen nhw – ac mae gyda ni gynllun i'w trwsio.

Os mai newid, cymhwysedd, a thîm fydd yn cael Cymru'n gweithio yw'r hyn rydych chi am ei gael, yna dewiswch Darren Millar a'r Ceidwadwyr Cymreig.

Kemi Badenoch

Y Gwir Anrhydeddus Kemi Badenoch AS
Arweinydd y Blaid Geidwadol ac Unoliaethol

Mae'r etholiad hwn i'r Senedd yn gyfle i dorri'n rhydd rhag yr agenda sosialaidd mae Llafur a Phlaid Cymru yn ei hymlid, ac yn gyfle hefyd i roi hwb aruthrol i'n heconomi i gael Cymru'n gweithio.

O dan Lafur a Phlaid Cymru, mae ein heconomi ar ei hôl hi o'i chymharu â phob un o wledydd a rhanbarthau'r DU, ac yma y gwelir y gyfradd cyflogaeth ieuenctid waethaf yn y DU. Mae agenda Llafur o drethi uchel wedi andwyo twf economaidd a'i gwneud yn anoddach i bobl sy'n dechrau ac yn rhedeg busnes, yn anoddach i greu swyddi ac yn anoddach i greu ffyniant i'n cenedl.

Tra bod bargeinion cyllidebol Llafur a Phlaid wedi gwastraffu arian trethdalwyr ar gimigau, ffug-rinweddoli a phrosiectau maldodus, mae pobl Cymru wedi gorfod ymbalfalu gyda'r cyflogau isaf a'r deilliannau gwaethaf yn y DU o ran addysg ac iechyd.

Mae gan y Ceidwadwyr Cymreig gynllun credadwy i drwsio Cymru a chael Cymru'n gweithio.

Rydyn ni am i Gymru fod yn wlad llawn cyfle.

Rydyn ni ar ochr cwmnïau teuluol a ffermydd teuluol. Byddwn ni'n sgrapio cyfraddau busnes i fusnesau bach ac yn cadw ein ffocws yn ddi-baid ar dyfu ein heconomi fel y gallwn ni fforddio buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd gwell. Byddwn ni'n cefnogi teuluoedd sy'n gweithio'n galed drwy dorri eu trethi, ymestyn gofal plant am ddim, a helpu pobl i wireddu eu breuddwyd o berchen ar eu cartref eu hunain.

Ar y diwrnod cyntaf, byddwn ni'n datgan argyfwng iechyd i sicrhau bod pob un elfen o fecanwaith y llywodraeth yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r argyfwng yn ein gwasanaeth iechyd gwladol (GIG). Byddwn ni'n rhoi terfyn ar yr angen i gleifion aros yn rhy hir am ambiwlansys, am brofion ac am driniaeth hanfodol. Byddwn ni'n adfer disgyblaeth a thrylwyredd academaidd yn ein hysgolion drwy gefnogi athrawon, gwahardd y cyfryngau cymdeithasol a pharatoi pobl ifanc drwy eu harfogi gyda'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i gystadlu yn y farchnad swyddi fyd-eang. A byddwn ni'n gwrthdroi terfynau cyflymder diangen 20mya Llafur, a'u hagenda yn erbyn gyrwyr, drwy wella cysylltedd trafnidiaeth i greu'r amodau i yrru twf economaidd.

Yn y system etholiadol newydd sydd ohoni, mae pob pleidlais yn cyfrif. Os bwriwch bleidlais dros y Ceidwadwyr Cymreig, cewch chi gynrychiolydd o'r Ceidwadwyr Cymreig yn y Senedd, yn brwydro drostoch chi a thros eich teulu.

Gyda'n gilydd, dewch i ni drwsio Cymru a chael Cymru'n gweithio.

Darren Millar

Darren Millar AS
Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig

CAEL CYMRU'N GWEITHIO

Ar ôl 27 mlynedd o Lafur, gyda Phlaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn glustog iddyn nhw, mae economi Cymru ar ei hôl hi o'i chymharu â gweddill y Deyrnas Unedig. Mae cyflogau'n is a diweithdra'n uwch nag yn unman arall, tra bod ein seilwaith a'n rhwydweithiau trafnidiaeth yn gwichian oherwydd diffyg buddsoddiad a pholisïau ffug-rinweddol fel 20mya a gwaharddiad ar adeiladu ffyrdd.

Bydd ein cynllun twf economaidd dros Gymru'n darparu mwy o swyddi a mwy o ffyniant. Bydd yn cael ein rhwydweithiau trafnidiaeth yn symud ac yn helpu i ailadeiladu ein heconomi fel y gallwn ni weld gwastadu ar draws y wlad, creu gwaith, manteisio ar dechnoleg newydd ac annog buddsoddiad ar draws Cymru gyfan.

DYMA WNAIFF LLYWODRAETH CEIDWADWYR CYMREIG:

CAEL CYMRU'N GWEITHIO A HELPU EIN STRYDOEDD MAWR

- Sgrapio cyfraddau busnes i gwmnïau bach, tafarndai a swyddfeydd post
- Peilota cyfnodau lle nad oes rhaid i fusnesau manwerthu newydd sy'n dymuno agor siopau ar strydoedd mawr Cymru dalu Trethi Busnes
- Gwneud contractau caffael cyhoeddus yn fwy hygyrch, yn arbennig i fusnesau bach, a rhoi blaenoriaeth i gwmnïau o Gymru
- Gweithio gyda chynghorau lleol i ymestyn mynediad i barcio am ddim yng nghanol trefi
- Gweithredu i fynd i'r afael â'r mannau lle mae anhawster cael signal ffonau symudol a lle mae cyflymder band eang yn wan

HYRWYDDO MASNACH A BUDDSODDIAD YNG NGHYMRU

- Ailsefydlu Asiantaeth Datblygu Cymru i ddenu mewnfuddsoddiad, hyrwyddo twf busnesau a chefnogi creu swyddi
- Datblygu strategaethau twf mewn ynni, gofal iechyd, amddiffyn, awyrofod, amaethyddiaeth, twristiaeth, gwasanaethau ariannol a'r diwydiannau creadigol a blaenoriaethu buddsoddiad ynddyn nhw
- Mwyafu manteision Bargeinion Twf, Porthladdoedd Rhydd, Ardaloedd Menter a Buddsoddi, ac Ardaloedd Twf Deallusrwydd Artiffisial (DA) a Lled-ddargludyddion
- Sefydlu canolfan arloesedd gweithgynhyrchu o'r radd flaenaf yn y byd, wedi'i harwain gan y sector preifat, yng Ngogledd-ddwyrain Cymru
- Hyrwyddo prosiectau ynni morol
- Cefnogi cyfleoedd ynni niwclear yn Wylfa a Thrawsfynydd
- Sicrhau bod diwydiant dur Cymru'n cael ei foderneiddio a bod ei ddyfodol yn ddiogel

TRWSIO EIN RHWYDWAITH TRAFNIDIAETH

FFYRDD

- Rhoi terfyn ar y milwrio yn erbyn gyrwyr, datgloi'r holl brosiectau ar y ffyrdd a gwaredu cynlluniau i godi tâl ar ddefnyddwyr y ffyrdd
- Gwrthdroi'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya mewn ardaloedd adeiledig a mabwysiadu dull wedi'i dargedu yn lle
- Dynodi'r M4, yr A55 a'r A40 yn 'Briffyrdd yr Undeb' i sicrhau eu bod yn cael eu blaenoriaethu fel ffyrdd strategol ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan
- Adeiladu ffordd liniaru'r M4, uwchraddio'r A55, codi trydedd bont dros y Fenai a symud y gwaith o ddeuoli'r A40 yng Ngorllewin Cymru yn ei flaen
- Adolygu'r rhwydwaith Cefnffyrdd yng Nghanolbarth Cymru drwy adnabod cyfleoedd i leihau amseroedd teithio
- Gwella'r rhwydwaith gwefru cerbydau trydan ar draws Cymru
- Cyflwyno Gwarant Tyllau yn y Ffyrdd a gofyn bod awdurdodau lleol yn atgyweirio tyllau yn y ffyrdd o fewn 48 awr o dderbyn adroddiad amdanyn nhw

BYSIAU A THRENAU

- Creu gwytnwch yn y rhwydwaith bysiau, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig
- Diogelu teithio am ddim ar fysiau a'i ymestyn i bob un 16-24 oed a chyn-aelodau'r lluoedd arfog
- Darparu gwelliannau i gapasiti, dibynadwyedd, prydlondeb a pherfformiad rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddiogelu trydaneiddio Prif Reilffordd Gogledd Cymru a darparu gorsafoedd newydd i ateb y galw
- Pwyso am gyllid canlyniadol ar gyfer yr holl wariant ar reilffyrdd yn Lloegr
- Gwella cysylltiadau rheilffyrdd rhwng Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr, gan gynnwys Meysydd Awyr Manceinion a Lerpwl
- Cynnig cardiau rheilffyrdd am ddim i bob un 16-24 oed
- Peilota teithio rheilffyrdd allfrig am ddim i ddeiliaid pasys teithio consesiynol

AWYR

- Dychwelyd Maes Awyr Caerdydd i weithredwyr preifat er mwyn arbed arian trethdalwyr a'i helpu i ffynnu
- Cefnogi datblygu llwybrau i ac o Faes Awyr Caerdydd, gan flaenoriaethu cysylltiadau hedfan uniongyrchol â Gogledd America

TORRI TRETHI

O dan Lafur, mae'r baich trethi yn y DU ar ei lefel uchaf erioed ac yma yng Nghymru, mae pobl yn talu mwy fel cyfran o'u hincwm mewn trethi nag mewn rhannau eraill o Brydain.

Does dim y fath beth ag arian cyhoeddus - arian trethdalwyr yn unig sydd. Bydd Llywodraeth Ceidwadwyr Cymreig yn benderfynol o dorri gwario gwamal, chwynnu gwario gwastraffus a darparu gwerth am arian i bobl Cymru. Byddwn ni'n defnyddio'r arbedion i gael Cymru'n gweithio, buddsoddi mewn gwasanaethau gwell a thorri trethi i roi arian yn ôl ym mhocedi teuluoedd sy'n gweithio'n galed.

DYMA WNAIFF LLYWODRAETH CEIDWADWYR CYMREIG:

TORRI TRETHI

- Torri'r gyfradd treth incwm sylfaenol 1c, gan arbed £450 y flwyddyn i'r teulu cyffredin sy'n gweithio
- Sgrapio Treth Trafodiad Tir (Treth Stamp) ar brif breswylfeydd i helpu pobl i fynd i berchentyaeth, ac i allu prynu a gwerthu
- Capio graddfeydd cynyddu treth gyngor ar 5% a gofyn am refferenda lleol os am ei chodi'n uwch na hynny

TORRI GWASTRAFF

- Sgrapio rhwydwaith Llafur o lysgenadaethau bach dramor
- Atal gwario ar brosiectau datblygu rhyngwladol, gan gynnwys plannu coed yn Uganda a chanŵau pŵer solar ym Mheriw
- Dileu swydd a swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cyflwyno Bil Cyfyngu Cyflogau Sector Cyhoeddus i fynd i'r afael â chyflogau gormodol i uwch-reolwyr mewn sefydliadau a gyllidir gan y trethdalwr

TRWSIO EIN DIWYDIANT TWRISTIAETH

Mae Cymru'n wlad hardd dros ben ac mae ganddi ddigon i'w gynnig i ymwelwyr domestig a rhyngwladol, ond mae'r rhethreg a'r polisïau gwrth-dwristiaeth gan Lafur a Phlaid Cymru wedi tanseilio ymdrechion gweithredwyr twristiaeth ac wedi dadannog pobl rhag ymweld â Chymru.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi ein diwydiant twristiaeth. Rydyn ni am adfer enw da Cymru fel gwlad groesawgar y mynyddoedd a'r dyffrynnoedd, a helpu pobl i ddarganfod cyfoeth ein tirwedd, ein hanes a'n treftadaeth. Drwy dorri trethi a biwrocratiaeth, byddwn ni'n galluogi busnesau twristiaeth i ffynnu ac arddangos Cymru wrth y byd yn well.

DYMA WNAIFF LLYWODRAETH CEIDWADWYR CYMREIG:

- Sgrapio Treth Dwristiaeth Llafur a Phlaid Cymru
- Gostwng y rheol 182 diwrnod ar gyfer gosod eiddo gwyliau i 105 diwrnod
- Adolygu hawliau datblygu a ganiateir mewn perthynas â mentrau twristiaeth
- Peilota cyfradd 5% effeithiol o 5% o TAW ar lety twristiaeth
- Datblygu Strategaeth Dwf ar gyfer Twristiaeth
- Sefydlu annibyniaeth weithredol ar gyfer Croeso Cymru a sicrhau mai'r diwydiant sy'n ei arwain
- Buddsoddi mewn ymgyrch farchnata fyd-eang i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i ymwelwyr
- Cefnogi cais Wrecsam i ddod yn Ddinas Diwylliant y DU yn 2029
- Sefydlu Cronfa Trefi Glan-môr a Chronfa Trefi Marchnad i gefnogi adfywio a gwella golwg ein cyrchfannau arfordirol a threfi eraill sy'n dibynnu ar dwristiaeth
- Sefydlu parthau parcio am ddim mewn cyrchfannau glan-môr ar benwythnosau
- Cefnogi creu atyniadau cenedlaethol newydd i ymwelwyr, gan gynnwys Amgueddfa Filwrol Genedlaethol i Gymru ac Arddangosfa Enwogion Chwaraeon Cymru
- Datblygu cynlluniau gweithredu i hyrwyddo twristiaeth mewn perthynas â threftadaeth grefyddol Cymru, lleoliadau ffilm a theledu a hel achau

TRWSIO EIN GWASANAETH IECHYD GWLADOL

O dan Lafur a Phlaid Cymru, mae perfformiad GIG Cymru wedi disgyn islaw rhannau eraill o'r DU ac mae sgandalau ynddo'n rhemp. Mae pobl yma'n aros yn hirach am ambiwlansys, am brofion, am driniaeth, ac mewn adrannau brys nag mewn unrhyw ran arall o'r DU. Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi methu â gwella byrddau iechyd sy'n methu. Mae cleifion wedi dioddef, wedi'u hamlygu i niwed ac mae rhai hyd yn oed wedi marw o ganlyniad.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu mewn Gwasanaeth Iechyd Gwladol sydd am ddim ar y pwynt y caiff ei ddefnyddio - i bawb, ar sail eu hanghenion, nid ar sail eu gallu i dalu. Mae gyda ni gynllun i drwsio ein GIG a thrwsio gofal cymdeithasol, gan ddarparu urddas i bobl hŷn a sicrhau eu bod yn gallu cadw eu hannibyniaeth mor hir â phosibl.

Bydd ein cynllun ni'n darparu gwell ysbytai, yn gwella gwasanaethau, yn hyrwyddo dewis ac yn darparu'r gofal sy'n canolbwyntio ar y claf y mae pobl Cymru'n ei haeddu.

DYMA WNAIFF LLYWODRAETH CEIDWADWYR CYMREIG:

DATGAN ARGYFWNG IECHYD A GWELLA CAPASITI A DIOGELWCH YN Y GIG AR UNWAITH

- Datgan argyfwng iechyd mewn ymateb i'r argyfwng yn ein GIG
- Ailagor ar unwaith y wardiau sydd wedi'u cau ar hyn o bryd mewn ysbytai cymunedol ar draws Cymru i gefnogi cleifion gyda gofal camu i lawr a gofal adsefydlu'n agosach i gartref
- Sbarduno adolygiad ar frys o gapasiti gwelyau ysbyty a chynyddu niferoedd gwelyau mewn ysbytai cyffredinol dosbarth i atal cyfnodau gormodol o aros mewn adrannau brys ac achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal o ambiwlansys
- Clirio'r ôl-groniad o ran amseroedd aros yn y GIG fel bod neb yn gorfod aros am gyfnod annerbyniol i gael triniaeth, a hynny erbyn diwedd tymor y Senedd

BUDDSODDI YN Y GIG

- Cynyddu gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol mewn termau real ym mhob un flwyddyn yn ystod tymor y Senedd nesaf
- Sefydlu Tasglu Effeithlonrwydd GIG Cymru i chwynnu gwastraff a darparu gwell gwerth am arian
- Cynyddu cyllid ar gyfer gofal sylfaenol ym mhob un flwyddyn a rhoi hwb i'r gyfran o gyllid y GIG a ddyrennir i ofal sylfaenol

CEFNOGI EIN STAFF YN Y GIG

- Cadw, recriwtio a hyfforddi mwy o feddygon, deintyddion, nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol iechyd eraill i roi terfyn ar argyfwng recriwtio Llafur a gwella mynediad at apwyntiadau
- Sefydlu Gwasanaeth Cronfa Staff Wrth Gefn i'r GIG i sicrhau bod banc o staff a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi a'u fetio i helpu'r GIG ar adegau o argyfwng a phan fydd y galw ar ei anterth
- Datblygu strategaeth ar gyfer y gweithlu, gyda lefelau staffio diogel, fel bod Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn GIG Cymru i gefnogi pobl i gadw'n fywiog ac mewn gwaith yn hirach i gefnogi economi Cymru, gan fwyafu atal salwch, ymyrraeth gynnar ac adsefydlu
- Ad-dalu ffioedd dysgu ar gyfer meddygon, deintyddion a nyrsys sy'n gweithio i GIG Cymru am 5 mlynedd ar ôl cymhwyso
- Gweithredu, yn llawn, argymhellion y Panel Adolygu Cyflogau Annibynnol ar gyflogau'r GIG yng Nghymru

GWELLA MYNEDIAD AT OFAL IECHYD

- Sefydlu Cronfa Ysbytai'r 21ain Ganrif i adeiladu ysbytai newydd a moderneiddio'r ystâd ysbytai a gofal sylfaenol yng Nghymru
- Terfynu rhaglen Llafur o gau ac israddio ysbytai
- Diogelu dyfodol gwasanaeth strôc yn Ysbyty Bronglais a llawdriniaeth frys yn Ysbyty Llwynhelyg
- Adeiladu pedwar Ysbyty Cymunedol newydd gydag Unedau Mân Anafiadau, gan gynnwys ysbyty yn y Rhyl gyda 30 o welyau
- Datblygu rhwydwaith o Hybiau Llawfeddygol a Chanolfannau Diagnostig, sydd ar agor 7 diwrnod yr wythnos ar draws Cymru, i gynyddu capasiti, lleihau amseroedd aros am brofion a thriniaeth, a lleihau'r angen am apwyntiadau niferus yn yr ysbyty
- Sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu cael mynediad at wiriad blynyddol gyda deintydd y GIG

GWELLA DEILLIANNAU I GLEIFION

- Creu Cronfa Triniaethau Canser a Chronfa Clefydau Prin fel y gall meddygon ddefnyddio'r triniaethau mwyaf arloesol, achubol ar gyfer canser a chlefydau prin
- Gwella mynediad at feddygon teulu gyda gwarant nad oes rhaid i gleifion aros am fwy na 7 diwrnod i gael apwyntiad
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu a chyhoeddi cynlluniau cyflawni cenedlaethol newydd - o fewn 12 mis - ar gyfer y pedwar peth mwyaf angheuol yng Nghymru - canser, clefyd y galon, strôc a dementia
- Ymestyn rôl fferyllfeydd cymunedol wrth ddarparu gofal iechyd, gan gynnwys ymestyn darparu presgripsiynau ar gyfer anhwylderau a chyflyrau mwy cyffredin

GWELLA IECHYD Y CYHOEDD

- Hyrwyddo bwtya'n iach a ffyrdd iach o fyw drwy'r cwricwlwm ysgol
- Dwysáu gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu drwy'r defnydd o e-sigaréts fel teclyn i helpu pobl i roi'r gorau i smygu am byth
- Defnyddio fferyllfeydd cymunedol i fwyafu effaith ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd
- Sicrhau bod ymgyrchoedd yn cael eu cynnal bob hyn a hyn i hyrwyddo ymwybyddiaeth o symptomau canser, clefyd y galon, strôc a dementia
- Cyflwyno rhaglen sgrinio genedlaethol am ganser y prostad

TRAWSNEWID IECHYD MEDDWL

- Cynyddu gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl a llesiant mewn termau real ym mhob un flwyddyn
- Sefydlu nifer o ganolfannau argyfwng iechyd meddwl ar draws Cymru, sydd ar agor 24/7, i ddarparu mynediad amserol at ofal a chymorth
- Cyhoeddi amseroedd aros ym maes iechyd meddwl a data perfformiad arall
- Cynyddu capasiti gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc (CAMHS) i atal lleoliadau yn bell iawn o'u hanwyliaid
- Sefydlu uned benodedig i famau a babis yng Ngogledd Cymru i bobl sy'n wynebu heriau iechyd meddwl difrifol ar ôl geni

GWELLA GOFAL CYMDEITHASOL

- Cynyddu'r terfyn cyfalaf i £75,000 i bobl sy'n derbyn gofal preswyl er mwyn sicrhau nad yw pobl yn colli eu cynilion oes i dalu am gostau gofal
- Hyrwyddo cydweithio rhwng y GIG ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol
- Sefydlu Comisiwn Annibynnol i ystyried atebion cyllid cynaliadwy hirdymor ar gyfer gofal cymdeithasol
- Annog y defnydd o gyllidebau personol a thaliadau uniongyrchol i rymuso pobl sy'n derbyn gofal cymdeithasol i wneud dewisiadau personol
- Cyflwyno hawl i ofal seibiant i ofalwyr a rhoi mynediad am ddim iddyn nhw at hyfforddiant a chymorth
- Cydnabod rôl gofalwyr ifanc gyda chynllun Cerdyn Gofalwyr Ifanc, darparu teithio am ddim ar fysiau a grantiau er mwyn cael mynediad at addysg, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth

YMESTYN DEWIS CLEIFION A HYRWYDDO CYFRIFOLDEB PERSONOL

- Sefydlu Siarter Hawliau Cleifion i wreiddio dewis cleifion mewn penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth eu hunain
- Cyflwyno graddau perfformiad ysbytai er mwyn rhoi hyder i gleifion wrth arfer eu hawl i ddewis
- Argraffu costau presgripsiynau unigol y GIG ar labeli er mwyn hyrwyddo cyfrifoldeb ymysg cleifion a lleihau gwastraff
- Peilota codi taliadau am golli apwyntiadau GIG
- Cynyddu'r gosb ar bobl sy'n cam-drin staff y GIG neu'n smygu ar dir ysbytai

GWELLA SAFONAU LLYWODRAETHU A DIOGELWCH

- Terfynu gofal coridor yng Nghymru a dynodi achlysuron lle mae cleifion yn aros 12 awr mewn cadeiriau mewn adrannau brys ac unedau asesu fel 'digwyddiadau byth'
- Sefydlu arolygiaeth iechyd a gofal cymdeithasol unigol newydd sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, o'r enw Gwella Iechyd a Gofal Cymru, er mwyn codi safonau a hyrwyddo arfer da
- Penodi Ombwdsmon GIG i Gymru i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu yn sgil cwynion, diogelu pobl sy'n chwythu'r chwiban a hyrwyddo diogelwch cleifion
- Sbarduno ymchwiliad annibynnol i fethiannau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sicrhau bod atebolrwydd, dysgu, a gwelliant
- Comisiynu ymchwiliad cyhoeddus annibynnol dan arweiniad barnwr i'r ffordd yr ymdriniodd Llywodraeth Cymru â'r pandemig coronafeirws i sicrhau bod craffu go iawn a bod gwersi'n cael eu dysgu at y dyfodol

TRWSIO EIN SYSTEM ADDYSG

Mae ysgolion yng Nghymru yn tanberfformio ac wedi'u cyllido'n annigonol. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn 20% yn fwy fesul unigolyn mewn cyllid nag sy'n wir dros y ffin ond eto i gyd mae'n gwario cannoedd yn llai ar bob disgybl ar eu haddysg. Mae tablau cynghrair rhyngwladol yn dangos bod ein system addysg, o dan Lafur a Phlaid Cymru, wedi'i chofnodi fel y system sy'n perfformio waethaf yn y DU ac mae gormod o lawer o bobl ifanc yn gadael yr ysgol yn weithredol anllythrennog. Mae ein plant a'n pobl ifanc yn haeddu gwell.

Bydd Llywodraeth Ceidwadwyr Cymreig yn gyrru safonau i fyny mewn cymwysterau academaidd a galwedigaethol fel ei gilydd ac yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwael mewn ystafelloedd dosbarth. Byddwn yn cynyddu cyllid i ysgolion, yn gwneud addysg bellach ac uwch yn fwy deniadol a hygyrch, ac yn darparu cymhellion i bobl ifanc aros yng Nghymru, cyfrannu at ein heconomi, a chyrraedd eu potensial llawn.

DYMA WNAIFF LLYWODRAETH CEIDWADWYR CYMREIG:

BUDDSODDI YN EIN HYSGOLION

- Cynyddu cyllid ysgolion ym mhob un flwyddyn
- Cyflwyno Fformiwla Cyllido Ysgolion Cenedlaethol i wastadu cyllid fesul disgybl ar draws Cymru
- Cyllido ysgolion yn uniongyrchol i sicrhau bod mwy o arian yn cyrraedd yr ystafell ddosbarth
- Cyflawni rhaglen uchelgeisiol o adeiladu ysgolion newydd
- Annog creu ysgolion arbenigol newydd yn y celfyddydau, y gwyddorau a chwaraeon
- Ymestyn mynediad at gyfleusterau ysgolion, i alluogi mynediad i'r gymuned y tu allan i oriau ysgol a thymhorau ysgol

GWELLA SAFONAU

- Caniatáu sefydlu Ysgolion Academi ac Ysgolion Rhydd yng Nghymru i wella deilliannau disgyblion
- Codi safle Cymru mewn tablau cynghrair addysg rhyngwladol
- Sefydlu Gwasanaeth Ymgynghorol Addysg Cymru gyfan i hyrwyddo arfer da
- Ymestyn arolygiadau dirybudd mewn ysgolion
- Gwella llythrennedd gan ddefnyddio dulliau sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth
- Sbarduno Profion Asesu Safonedig mewn ysgolion cynradd i fesur cynnydd disgyblion a pherfformiad ysgolion
- Sgrapio Bagloriaeth Cymru i ganiatáu i ddisgyblion ganolbwyntio ar gymwysterau a gydnabyddir yn rhyngwladol
- Sefydlu Cronfa Rhagoriaeth Cymru i helpu disgyblion mwy abl a thalentog i gyflawni eu potensial llawn

CEFNOGI GWEITHWYR PROFFESIYNOL AC ADFER DISGYBLAETH

- Adfer disgyblaeth a pharch, a gwella presenoldeb mewn ysgolion, drwy Gyfamodau Ysgol rhwng rhieni, athrawon a disgyblion
- Cyflwyno gwaharddiadau awtomatig i ddisgyblion sy'n meddu ar gyllyll ac arfau eraill
- Gwahardd ffonau symudol mewn ysgolion a chefnogi gwaharddiad ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc o dan 16 oed
- Grymuso Cyngor y Gweithlu Addysg i sefydlu llwybrau newydd i mewn i'r proffesiwn addysgu

HYRWYDDO LLESIANT, DIOGELWCH A SGILIAU BYWYD DYSGWYR

- Gwarchod mannau a chwaraeon i fenywod a merched yn unig mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion yng Nghymru
- Hyrwyddo dyhead, mentergarwch ac entrepreneuriaeth drwy sefydlu menter gymdeithasol ym mhob ysgol uwchradd
- Gwneud Cymru yn Genedl o Achubwyr Bywyd drwy gyflwyno hyfforddiant cymorth cyntaf ym mhob ysgol
- Sicrhau bod disgyblion yn datblygu sgiliau bywyd hanfodol fel cyllidebu, sut i reoli cartref a pharatoi pryd bwyd iach drwy gyflwyno gwersi gorfodol mewn Gwyddor Cartref
- Adolygu deddfwriaeth a threfniadau cymorth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Gwarantu mynediad at brofiadau addysg awyr agored

CEFNOGI TEULUOEDD

- Ymestyn gofal plant am ddim i blant rhwng 9 mis a 4 oed i helpu teuluoedd i gyllidebu a galluogi dychwelyd i'r gwaith
- Rhoi dewis i rieni sy'n gweithio enwebu mam-gu neu dad-cu/nain neu daid i dderbyn Taliad Gofal Plant Teidiau a Neiniau o hyd at £4,800 y flwyddyn o ofalu am eu hwyrion
- Cynnig mynediad at wersi rhianta am ddim i ddarparu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar famau a thadau i fagu eu plant yn hyderus a chefnogi perthnasoedd iach gartref
- Gwarchod plant drwy gomisiynu ymchwiliad Cymru gyfan i gangiau sy'n meithrin perthnasoedd amhriodol gyda phlant

DWYSÁU HAWLIAU A DEWIS RHIENI

- Ailsefydlu'r hawl i rieni dynnu eu plant o wersi addysg rhyw ac addysg grefyddol
- Sefydlu Porthol Perfformiad Ysgolion Cymru i hyrwyddo dewis a helpu rhieni a dysgwyr i gymharu data ar ganlyniadau arholiadau ysgolion, presenoldeb, gwaharddiadau, perfformiad ariannol a chael mynediad hawdd at adroddiadau arolygu
- Galluogi ysgolion da y mae galw gormodol amdanyn nhw i gynyddu eu niferoedd disgyblion
- Creu rhagor o lefydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg
- Gofyn bod pob awdurdod lleol yn sicrhau bod gan rieni ddewis i'w plant fynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg fel ei gilydd
- Diogelu trafnidaeth o'r cartref i'r ysgol am ddim, gan gynnwys i blant sy'n mynd i'w hysgol cyfrwng Cymraeg agosaf

YMESTYN MYNEDIAD AT BRIFYSGOLION A GWELLA PROFIAD MYFYRWYR

- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i dorri cyfraddau llog gormodol ar ddyled myfyrwyr a lleihau cyllid cyhoeddus i gyrsiau gradd sy'n cynnig gobeithion gwaeth o ran swyddi
- Peilota gostyngiad o £1,000 oddi ar ffïoedd dysgu i fyfyrwyr sy'n astudio pynciau STEM
- Gweithio gyda phrifysgolion Cymru i gyflwyno cyrsiau gradd dwys sy'n gallu cael eu cwblhau dros ddwy flynedd
- Gofyn i brifysgolion gyhoeddi mwy o ddata am enillion a deilliannau cyflogaeth eu myfyrwyr
- Annog pobl i fynd i gyrsiau addysg uwch a phellach yn rhan-amser, drwy ddysgu o bell a mewn ffyrdd hyblyg
- Cyflwyno Safon Ansawdd Llety Myfyrwyr ar gyfer neuaddau preswyl
- Ad-dalu ffïoedd dysgu Prifysgol ar gyfer myfyrwyr nyrsio, meddygaeth, addysgu a deintyddiaeth sy'n astudio yng Nghymru ac sy'n mynd ymlaen i weithio am o leiaf bum mlynedd yn GIG Cymru neu mewn ysgolion yng Nghymru
- Rhoi stop ar wrthsemitiaeth a mathau eraill o hiliaeth a chasineb ar gampysau prifysgolion ac addysg uwch
- Partneru gyda phrifysgolion Cymru a'r sector preifat i greu canolfan rhagoriaeth ac ymchwil newydd i storio a chludo ynni

HYRWYDDO SGILIAU GALWEDIGAETHOL A DYSGU GYDOL OES

- Sicrhau bod cydraddoldeb rhwng addysg dechnegol ac addysg academaidd
- Gosod targed uchelgeisiol i ddarparu 125,000 o brentisiaethau dros dymor y Senedd nesaf i ateb y gofynion sgiliau yng Nghymru i yrru twf economaidd
- Darparu cyfleoedd prentisiaethau ar gyfer yr holl brosiectau seilwaith mawr a gyllidir gan Lywodraeth Cymru
- Ymestyn prentisiaethau gradd a mynediad at gyrsiau addysg uwch mewn colegau yng Nghymru
- Gwneud Cymru'n Genedl o Ddysgu Gydol Oes drwy roi hawl i bobl gael cymorth i ddysgu, uwchsgilio neu ailhyfforddi drwy gydol eu bywydau gwaith
- Hyrwyddo ymgysylltiad â Chynllun Turing i bobl ifanc sy'n dymuno cael profiad o astudio, gwirfoddoli a gweithio tramor
- Sefydlu Academi Amddiffyn â ffocws STEM i Gymru

CEFNOGI POBL HŶN

O dan Lafur yng Nghymru, mae pobl hŷn wedi bod yn ystyriaeth eilaidd. Mae llawer o bobl hŷn bellach yn ei chael hi'n anodd, yn aros am oesoedd ar restrau aros hir am brofion a thriniaeth y GIG, ac mae llawer yn colli eu hannibyniaeth yn ddiangen oherwydd hyn.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig o'r farn bod henaint yn rhywbeth i'w ddathlu. Rydyn ni am i bobl hŷn gael urddas a pharch a gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu bywydau eu hunain.

Byddwn ni'n cefnogi pobl hŷn yng Nghymru i gadw eu hannibyniaeth a pharhau'n aelodau gweithgar o'u cymuned a byddwn yn helpu i roi sicrwydd at y dyfodol iddyn nhw.

DYMA WNAIFF LLYWODRAETH CEIDWADWYR CYMREIG:

- Dynodi Gweinidog gyda chyfrifoldeb dros Bobl Hŷn
- Cyflwyno Bil Hawliau Pobl Hŷn i ymestyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn ar draws Cymru
- Ymestyn pwerau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Cyflwyno gofyniad cyfreithiol i gyrff yn y sector cyhoeddus ymgynghori â phobl hŷn wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau
- Pennu Cymru fel Gwlad Gwahardd Galwyr Digroeso gyntaf y DU i helpu diogelu pobl hŷn rhag troseddau a sgamiau ariannol
- Ymestyn breiniau i'n pobl hŷn sy'n byw yng Nghymru gan gynnwys:
  - Presgripsiynau am ddim
  - Teithio am ddim ar fysiau
  - Peilota teithio am ddim ar y rheilffyrdd ar adegau allfrig
  - Mynediad am ddim at safleoedd CADW i bobl dros 60 oed
- Cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cenedlaethol blynyddol yn erbyn cam-drin pobl hŷn, gwahaniaethu ar sail oedran, a sgamiau a blingiadau
- Cyflwyno Taliad Gofal Plant Teidiau a Neiniau o hyd at £4,800 y flwyddyn i fam-gu/tad-cu/nain/taid sy'n darparu gofal plant i'w hwyrion
- Mynd i'r afael ag allgáu digidol o ran cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus

CEFNOGI EIN HAMGYLCHEDD NATURIOL

O dan Lafur a Phlaid Cymru, bu diffyg gweithredu ystyrlon o ran gwarchod ein hamgylchedd naturiol. Mae gweithredu ar heriau amgylcheddol wedi'i wthio i'r neilltu o blaid ffug-rinweddoli tra bod ein cymunedau gwledig wedi'u hesgeuluso.

Mae ein gweledigaeth ni fel y Ceidwadwyr Cymreig yn cynrychioli llwybr cynhwysfawr at drawsnewid ein heconomi tra'n gwarchod ein treftadaeth naturiol unigryw. Rydyn ni wedi ymrwymo i leihau allyriadau carbon Cymru ac addasu i effaith newid yn yr hinsawdd, ond gwnawn ni hynny mewn ffordd sy'n canmol, yn lle cosbi, aelwydydd a busnesau Cymru, a'n sectorau ffermio ac amaeth sydd gyda'r gorau yn y byd.

DYMA WNAIFF LLYWODRAETH CEIDWADWYR CYMREIG:

- Sgrapio Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydlu rheoleiddiwr annibynnol, addas at y diben, yn ei le
- Glanhau ein hafonydd a gwella ansawdd dŵr ymdrochi, a defnyddio technoleg fodern i wella monitro
- Cyflwyno moratoriwm ar ffermydd solar a gwynt ar raddfa ddiwydiannol i warchod cefn gwlad Cymru
- Mabwysiadu dull 'claddu ceblau'n gyntaf' i seilwaith yng nghefn gwlad Cymru
- Annog datblygwyr adeiladau masnachol newydd a meysydd parcio i gynhyrchu ynni solar oddi ar doeon a chanopis
- Mabwysiadu dull Cymru gyfan ym maes ailgylchu domestig i osgoi dryswch, sicrhau cysondeb a gyrru effeithlonrwydd yn sgil arbedion maint
- Sicrhau aliniad rhwng Cymru a gweddill y DU ar gynlluniau dychwelyd ernes i osgoi dryswch, costau diangen, a sicrhau cysondeb i fanwerthwyr a chyfanwerthwyr
- Gwella monitro ansawdd aer i fynd i'r afael â llygredd, diogelu iechyd y cyhoedd ac atal afiechydon anadlol
- Cynyddu cosbau a gwella camau gorfodi ar gyfer tipio sbwriel, baw cŵn, graffiti a gollwng sbwriel i sicrhau bod y rheiny sy'n gyfrifol yn talu am eu gweithredoedd
- Sefydlu Cronfa Bywyd Gwyllt Cymru gwerth £20 miliwn i gefnogi ymdrechion cadwraeth ar draws Cymru

GWARCHOD CYMUNEDAU RHAG LLIFOGYDD

- Sefydlu Asiantaeth Llifogydd Genedlaethol i gydlynu gwaith rheoli risgiau llifogydd a dysgu yn sgil digwyddiadau llifogydd gydag ymchwiliadau amserol ac annibynnol
- Sefydlu Stribedu Glas mewn ardaloedd o risg llifogydd uchel i atal datblygu anghyfrifol
- Cynnal asesiad brys ar sail risg o risgiau llifogydd ac amddiffynfeydd presennol yng Nghymru
- Buddsoddi mewn gwelliannau i amddiffynfeydd llifogydd i leihau nifer y cartrefi a'r busnesau sydd mewn perygl a gwella gwytnwch y rhwydwaith trafnidiaeth

CEFNOGI EIN FFERMWYR

Mae Treth Ffermydd Teuluol Llafur, a Chynllun Ffermio Cynaliadwy Llafur a Phlaid Cymru (sydd wedi'i enwi'n amhriodol), yn tanseilio hyfywedd ein diwydiant amaethyddiaeth, gan gostio miloedd o swyddi a difrodi ein heconomi wledig.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cefnogi ein ffermwyr erioed, a byddwn yn parhau i wneud hynny bob amser. Hebddyn nhw, ni fyddai bwyd ac ni fyddai dyfodol. Byddwn ni'n buddsoddi yn ein cymunedau gwledig, yn cefnogi cynnyrch lleol ac yn cefnogi ein ffermwyr.

DYMA WNAIFF LLYWODRAETH CEIDWADWYR CYMREIG:

- Datblygu Strategaeth Dwf ar gyfer Amaethyddiaeth Cymru
- Rhoi hwb o £100 miliwn ycwanegol i'r gyllideb ffermio dros dymor y Senedd nesaf
- Dileu Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llafur a Phlaid Cymru a sefydlu cynllun diogelwch bwyd yn gyntaf newydd yn ei le
- Dilyn y wyddoniaeth a mabwysiadu dull a arweinir gan dystiolaeth o fynd i'r afael â TB Gwartheg mewn da byw a bywyd gwyllt
- Sgrapio'r Parth Perygl Nitradau ar draws Cymru gyfan a mabwysiadu dull wedi'i dargedu ar sail dalgylchoedd yn ei le
- Rhoi terfyn ar y dull o ffermio yn ôl y calendr mewn perthynas â rheoliadau dŵr
- Hyrwyddo bwyd a diod Cymreig a labelu gonest
- Diwygio rheolau caffael cyhoeddus i gefnogi cynhyrchwyr Cymreig
- Ymgyrchu i Dreth Ffermydd Teuluol Llafur gael ei sgrapio'n llawn
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â lladrata offer a throsedd ar ffermydd

TRWSIO EIN CYMUNEDAU

Addewid datganoli oedd sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn agosach i drothwyon pobl Cymru. Ond yn hytrach na grymuso ein rhanbarthau, rydyn ni wedi gweld canoli dibaid, gyda phwerau a phenderfyniadau'n cael eu gwneud yn bwysfawr ym Mae Caerdydd.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu mewn datganoli go iawn. Mae hyn yn golygu symud nerth pŵer i ffwrdd o swyddfeydd y llywodraeth ac yn ôl i ddwylo unigolion, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n deall eu cymunedau orau.

Byddwn ni'n sicrhau bod bargen deg i bob cwr o'r wlad, drwy greu partneriaethau gydag awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Drwy drosoli'r cyfleoedd hyn yn llawn, byddwn ni'n datgloi potensial economaidd ein holl gymunedau a chael Cymru'n gweithio.

DYMA WNAIFF LLYWODRAETH CEIDWADWYR CYMREIG:

GRYMUSO CYMUNEDAU

- Sefydlu fframwaith datganoli newydd yng Nghymru drwy ddatganoli grymoedd i lawr o Fae Caerdydd
- Caniatáu i drigolion gymeradwyo neu roi feto ar achosion o gynnydd gormodol ar dreth gyngor drwy refferenda lleol
- Diwygio'r fformiwla cyllido llywodraeth leol i sicrhau bod cyllido teg ar draws Cymru
- Darparu cyllidebau dangosol dros dair blynedd i awdurdodau lleol i gynorthwyo gyda blaen-gynllunio
- Adolygu nifer yr awdurdodau lleol a nifer y cynghorwyr yng Nghymru
- Rhoi mwy o lais i gynghorau tref a chymuned yn y broses gynllunio
- Cyflwyno Cronfa Perchnogaeth Gymunedol i achub asedau sydd o dan fygythiad, fel llyfrgelloedd, tafarndai, canolfannau hamdden a mannau gwyrdd, yn arbennig y rhai sydd o dan fygythiad o gael eu cau
- Sicrhau bod mwy o hybiau bancio yng Nghymru i wasanaethu cymunedau lle mae banciau wedi cau

CADW EIN CYMUNEDAU'N DDIOGEL

- Gwella diogelwch a diogeledd cymunedol gyda Chronfa Strydoedd Diogelach i fuddsoddi mewn mesurau fel gwell goleuadau stryd, a systemau monitro fideo newydd
- Cynnal hawliau a gwarchod diogelwch menywod a merched drwy fynnu bod tai bach ac ystafelloedd newid i fenywod a merched yn unig ym mhob adeilad cyhoeddus, wardiau menywod a merched yn unig mewn ysbytai yng Nghymru a diogelu chwaraeon i fenywod a merched yn unig
- Gwella goleuadau yng nghanol trefi a mannau cyhoeddus i feithrin mwy o ymdeimlad o ddiogelwch i fenywod a merched

CARTREF I BAWB

Mae Cymru yng nghanol argyfwng tai. Dros y 27 mlynedd diwethaf, mae Llafur a Phlaid Cymru wedi methu ag adeiladu digon o gartrefi newydd i gadw i fyny â'r galw, gan arwain at gostau rhent esgynnol, anallu i bobl ifanc fforddio perchen ar gartref a rhwystr i bobl hŷn rhag symud i eiddo llai.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am i Gymru fod yn ddemocratiaeth lle mae perchentyaeth a lle mae gan bawb fudd yn eu cymuned leol eu hunain. Bydd hyrwyddo perchentyaeth ac adeiladu mwy o gartrefi'n rhoi hwb i dwf economaidd ac yn cael Cymru'n gweithio.

DYMA WNAIFF LLYWODRAETH CEIDWADWYR CYMREIG:

HYRWYDDO PERCHENTYAETH AC ADEILADU MWY O GARTREFI

- Sgrapio Treth Trafodiad Tir ar brif breswylfeydd i hyrwyddo symudedd yn y farchnad dai
- Adfer Hawl i Brynu yng Nghymru, gan ailfuddsoddi elw wrth werthu mewn tai mwy fforddiadwy a diogelu tai rhag cael eu gwerthu am 10 mlynedd
- Ymestyn ac ehangu'r cynllun Cymorth i Brynu i bob un sy'n prynu am y tro cyntaf a chynyddu cwmpas y cynllun i gynnwys eiddo gwag y mae angen eu hadnewyddu
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i roi ad-daliad treth o £5,000 i bobl ifanc yn eu swydd gyntaf, er mwyn eu helpu i gynilo tuag at eu cartref cyntaf
- Anelu at adeiladu 40,000 o gartrefi newydd erbyn 2030
- Mabwysiadu dull seilwaith yn gyntaf ar gyfer datblygiadau tai newydd
- Cyflwyno cymhellion i awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau cynllunio amserol a gosod cosbau ar ddatblygwyr sy'n methu â chyflawni prosiectau tai o fewn caniatâd cynllunio sy'n bodoli eisoes
- Adolygu gweithrediad Rhentu Doeth Cymru

CODI SAFONAU TAI AR DRAWS CYMRU

- Sefydlu Cronfa Diogelwch Tân i gefnogi costau gwaith diogelwch tân a rhoi terfyn ar bla cladin anniogel
- Archwilio cyflwyno cludo blaendaliadau i denantiaid tai cymdeithasol
- Gweithredu gwaharddiad ar eiddo prydles newydd yng Nghymru a symud tuag at drefniadau cyfunddaliad ar gyfer datblygiadau newydd tra'n cymryd camau i fynd i'r afael â threfniadau prydles annheg presennol
- Mynd i'r afael â'r prinder tai hygyrch ar gyfer pobl anabl drwy ddatblygu system addasiadau symlach a chyflwyno rhwymedigaeth statudol i awdurdodau lleol osod targedau ar gyfer tai sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn

MYND I'R AFAEL Â DIGARTREFEDD

- Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynllun i ddileu cysgu allan yng Nghymru
- Rhoi terfyn ar y defnydd o westai a charafannau fel llety brys ar gyfer teuluoedd â phlant
- Cyhoeddi canllawiau newydd i fynd i'r afael ag oedi wrth ddarparu cymorth i bobl ddigartref oherwydd anghydfodau cysylltiadau lleol traws-ffiniol

MYND I'R AFAEL Â THLODI A HYRWYDDO CYDRADDOLDEB

O dan Lafur a Phlaid Cymru, mae'r addewid o Gymru ffyniannus wedi methu â chael ei gwireddu. Yn hytrach, mae ein cenedl wedi'i maglu o hyd mewn cylch o anghydraddoldeb, ac yn un o'r rhannau mwyaf difreintiedig yn economaidd o'r Deyrnas Unedig. Y tu ôl i'r ystadegau, mae teuluoedd go iawn, rhieni sy'n cael trafferth talu eu biliau a gwresogi eu cartrefi, a phlant sy'n tyfu i fyny heb y sicrwydd sylfaenol maen nhw'n haeddu ei gael.

Yn dwysáu'r caledi economaidd yma, mae cynnydd pryderus mewn anoddefgarwch. Mae gwahaniaethu a throseddau casineb wedi taflu cysgod dros ein cymunedau, gan fygwth diogelwch ac urddas grwpiau lleiafrifol ac eraill. Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn hyrwyddo Cymru lle caiff pawb y cyfle i gyfrannu at ein heconomi a'n cymuned.

DYMA WNAIFF LLYWODRAETH CEIDWADWYR CYMREIG:

MYND I'R AFAEL Â THLODI I GAEL CYMRU'N GWEITHIO

- Mynd i'r afael â thlodi drwy dorri trethi, creu swyddi a thyfu economi Cymru er mwyn rhoi sicrwydd economaidd incwm addas i fwy o deuluoedd
- Diwygio Dechrau'n Deg i sicrhau y caiff ei dargedu at deuluoedd y mae ei angen arnyn nhw, nid codau post
- Datblygu Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi i gynnwys strategaethau penodol i fynd i'r afael â thlodi plant a thlodi tanwydd er mwyn gyrru atebolrwydd a chynnydd
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu Cynllun Gweithredu Hapchwarae i fynd i'r afael â hapchwarae trafferthus yng Nghymru
- Gweithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin i'r DU sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amddifadedd, ac sy'n gwastadu ar draws Cymru gyfan

HYRWYDDO CYNHWYSIANT

- Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl mewn cyfraith gwlad yng Nghymru
- Cefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol drwy ddatblygu system addasiadau tai symlach a chynyddu'r defnydd o daliadau uniongyrchol
- Arddell y Model Cymdeithasol o Anabledd a'r hawl i Fyw'n Annibynnol, gan ddarparu llais, dewis, rheolaeth ac annibyniaeth i bobl anabl yn eu bywydau
- Cyflwyno Bil Awtistiaeth ac Anableddau Dysgu i Gymru, i ddarparu llwybr clir i bobl ag Awtistiaeth at ddiagnosis a hawl statudol i dderbyn gwasanaethau amserol sy'n ateb eu hanghenion

MYND I'R AFAEL Â GWAHANIAETHU

- Mabwysiadu diwylliant o ddim goddefgarwch ar draws Llywodraeth Cymru er mwyn atal gwahaniaethu ar sail rhyw, oedran, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, ethnigrwydd, crefydd neu anabledd
- Sicrhau bod cyfleoedd gwaith a phenodiadau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cynnig ar sail teilyngdod i'r ymgeiswyr gorau, ar sail eu gallu, eu cymeriad, a'u cymhwysedd, ac nid ar sail eu cefndir
- Cynyddu cyllid i bobl sy'n gweithio i gefnogi pobl sy'n goroesi cam-drin domestig a cham-drin rhywiol

CEFNOGI GWEITHREDU I ATAL MEWNFUDO ANGHYFREITHLON

- Sgrapio polisi Cenedl Noddfa Llafur a Phlaid Cymru
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i atal mewnfudo anghyfreithlon a chefnogi ymneilltuo o'r Comisiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)

CEFNOGI EIN LLUOEDD ARFOG

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn gefnogwyr balch o'n lluoedd arfog ac rydyn ni am sicrhau mai Cymru yw'r genedl haelaf i gyn-aelodau'r lluoedd arfog yn y byd.

Rydyn ni'n anrhydeddu'r rhai a gollodd eu bywydau ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a wnaed gan ein lluoedd arfog, ein cadetiaid a'n cyn-aelodau. Rydyn ni am weld Cymru sy'n ymgorffori parch atyn nhw a'u teuluoedd, sy'n cofio'u haberth ac sy'n cyflawni Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Bydd Llywodraeth Ceidwadwyr Cymreig yn darparu gwelliannau i'n teulu lluoedd arfog ac yn blaenoriaethu twf economaidd a chyfleoedd cyflogaeth yn y diwydiant amddiffyn.

DYMA WNAIFF LLYWODRAETH CEIDWADWYR CYMREIG:

- Gweithio gyda Chomisiynydd Cyn-filwyr Cymru i sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus datganoledig yn ateb eu rhwymedigaethau o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog
- Dynodi Gweinidog gyda chyfrifoldeb dros gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru
- Rhoi terfyn ar ddigartrefedd ymysg cyn-aelodau'r lluoedd arfog drwy ofyn bod pob awdurdod lleol a phob landlord cymdeithasol yng Nghymru yn rhoi'r flaenoriaeth uchaf i gyn-aelodau'r lluoedd arfog wrth ddyrannu tai
- Gwobrwyo aelodau a chyn-aelodau'r lluoedd arfog am eu cyfraniad at Gymru drwy ddarparu:
  - Teithio am ddim ar fysiau
  - Mynediad am ddim mewn canolfannau hamdden awdurdodau lleol
  - Mynediad blaenoriaeth at driniaeth GIG am salwch neu anafiadau'n gysylltiedig â'u gwasanaeth
  - Mynediad blaenoriaeth at addasiadau tai drwy Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl

ANRHYDEDDU EIN HARWYR A CHYNNAL CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

- Sicrhau bod Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog ym mhob rhanbarth o Gymru
- Sicrhau bod gan bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru Brif Swyddog y Lluoedd Arfog a mentoriaid cymheiriaid parhaol
- Hyrwyddo ymgysylltiad yn y rhaglen Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog i gefnogi plant y lluoedd arfog yng Nghymru
- Cyflwyno Premiwm Disgyblion y Lluoedd Arfog i gefnogi plant personél milwrol
- Hyrwyddo sefydlu grwpiau cadetiaid newydd mewn ysgolion a Chymwysterau Galwedigaethol i Gadetiaid

HYRWYDDO A GWARCHOD TREFTADAETH FILWROL CYMRU

- Sefydlu Amgueddfa Filwrol Genedlaethol i Gymru
- Cynnal gwefan 'Cymru'n Cofio - Wales Remembers' i hyrwyddo coffáu cerrig milltir a dyddiadau neilltuol milwrol hanesyddol Cymru
- Anrhydeddu'r rhai a gollodd eu bywydau yng Nghymru drwy roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod cofebau rhyfel yn cael eu cynnal a'u cadw
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i gynyddu'r cosbau ar bobl sy'n difrodi neu'n difwyno cofebau rhyfel

CEFNOGI EIN CYMUNEDAU FFYDD

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn gwerthfawrogi cyfraniad aruthrol cymunedau ffydd i Gymru. Rydyn ni'n cydnabod rôl Cristnogaeth a ffyddiau eraill wrth lunio a gwasanaethu ein cenedl ac rydyn ni'n credu y dylai ein treftadaeth ysbrydol gael ei dathlu a'i hyrwyddo.

DYMA WNAIFF LLYWODRAETH CEIDWADWYR CYMREIG:

- Gwella ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â chymunedau ffydd drwy:
  - Sefydlu Cynhadledd Cymunedau Ffydd flynyddol
  - Ymgynghori â chymunedau ffydd wrth ddatblygu deddfwriaeth a pholisi sy'n effeithio arnyn nhw
  - Cynyddu amlder cyfarfodydd o'r Fforwm Cymunedau Ffydd
- Datblygu a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer twristiaeth yn gysylltiedig â ffydd gyda strategaethau ar gyfer safleoedd cysegredig, capeli hanesyddol, eglwysi, addoldai eraill a llwybrau pererindod
- Sefydlu Cynllun Cyfamod Cymunedau Ffydd ar gyfer cyrff cyhoeddus i gydnabod cyfraniad cadarnhaol grwpiau ffydd i Gymru a gwella ymgysylltiad â nhw
- Adolygu rôl Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm cenedlaethol
- Parhau i gyllido gwasanaethau caplaniaeth yn GIG Cymru
- Cynnal digwyddiadau cenedlaethol i gofio'r Holocost a gweithredoedd hil-laddiad eraill
- Hyrwyddo cynaliadwyedd addoldai drwy ddarparu grantiau er mwyn lleihau eu costau rhedeg
- Gweithio gyda chymunedau ffydd a rhanddeiliaid eraill i fynd i'r afael â gwrthsemitiaeth, casineb gwrth-Foslemaidd a throsedd casineb arall
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i fynd i'r afael ag eithafiaeth

CEFNOGI EIN DIWYLLIANT, EIN TREFTADAETH A CHWARAEON

Mae gan Gymru dreftadaeth ddiwylliannol hynod o gyfoethog a thraddodiad o'r radd flaenaf mewn llenyddiaeth a'r campau, ond nid yw Llywodraethau Cymru olynol wedi gwneud digon i ddathlu ein hasedau diwylliannol na'n hasedau chwaraeon.

Bydd Llywodraeth Ceidwadwyr Cymreig yn cryfhau ac yn hyrwyddo ein sefydliadau cenedlaethol, yn ymestyn mynediad at y celfyddydau ac yn arddel cyfleoedd a rhagoriaeth yn y campau.

DYMA WNAIFF LLYWODRAETH CEIDWADWYR CYMREIG:

HYRWYDDO CELFYDDYDAU, DIWYLLIANT A THREFTADAETH CYMRU

- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddynodi Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl gyhoeddus yng Nghymru
- Eithrio lleoliadau celfyddydau a cherddoriaeth, a sinemâu a theatrau bach ar lawr gwlad rhag talu trethi busnes
- Cadw mynediad am ddim at Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru
- Darparu gostyngiadau i deuluoedd a phobl leol ymweld â safleoedd CADW
- Cynyddu cyllid craidd ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru a sefydlu arddangosfa barhaol o'i chasgliad ar Ystâd y Senedd
- Darparu £100,000 o gyllid cyfatebol blynyddol i Sw Cenedlaethol Cymru
- Hyrwyddo mynediad digidol at yr Archifau Cenedlaethol yng Nghymru
- Sefydlu hawl i gymunedau yng Nghymru wneud cais i berchnogi asedau treftadaeth a llyfrgelloedd sy'n wynebu bygythiadau o gael eu cau
- Hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer teledu a ffilm

DATGLOI POTENSIAL CYMRU YM MYD Y CAMPAU

- Marchnata Cymru fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau chwaraeon o'r radd flaenaf
- Sefydlu rhwydwaith o Lysgenhadon Chwaraeon Cymru i ysbrydoli cyfranogiad yn y campau a chau bylchau mewn cyfranogiad
- Diogelu meysydd chwaraeon ysgolion a chyfleusterau chwaraeon rhag cael eu cau a'u gwerthu
- Darparu pwll nofio maint Olympaidd yng Ngogledd Cymru
- Gweithio gyda Nofio Cymru i addysgu pob plentyn yng Nghymru i nofio erbyn diwedd eu cyfnod mewn addysg gynradd
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod gemau Rygbi Rhyngwladol y Chwe Gwlad yn parhau i gael eu darlledu'n fyw ar sianeli teledu am ddim

DIOGELU'R IAITH GYMRAEG

I'r Ceidwadwyr Cymreig, mae'r iaith Gymraeg wrth galon ein hunaniaeth genedlaethol ac rydyn ni'n parhau i fod yn gefnogwyr balch a di-syfl ohoni. Rydyn ni o'r farn bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru a'n gweledigaeth ni yw am Gymru lle mae'r iaith yn rhan fyw ac annatod o bob cymuned.

Byddwn ni'n arddel parhau i ymestyn addysg cyfrwng Cymraeg, gan roi cyfle i bobl ifanc ddod yn hyderus ac yn rhugl yn y Gymraeg a dymchwel y rhwystrau mae dysgwyr sy'n oedolion yn eu hwynebu.

Rydyn ni wedi ymrwymo i greu cenedl ddwyieithog fywiog lle mae pob unigolyn yn cael ei rymuso i siarad, dysgu a rhannu'r Gymraeg bob dydd.

DYMA WNAIFF LLYWODRAETH CEIDWADWYR CYMREIG:

- Cynnal targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
- Creu Cronfa 'Mynediad at y Gymraeg' i helpu pobl i gael mynediad at gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau iaith, gan sefydlu'r hawl i bawb o bob oedran ddysgu'r Gymraeg am ddim
- Datblygu a gweithredu 'Siarter Iaith Gymraeg i Bawb'
- Sefydlu Menter Ddigidol Gymraeg i hyrwyddo dysgu'r Gymraeg, darlledu yn y Gymraeg a gwasanaethau ar-lein yn y Gymraeg
- Sicrhau bod yr effaith ar y Gymraeg yn cael ei hystyried yn rhan o'r broses gynllunio ar gyfer pob datblygiad sylweddol yng Nghymru
- Cynyddu nifer yr athrawon newydd gymhwyso sy'n gallu siarad Cymraeg
- Sicrhau llwyddiant parhaus yr Eisteddfod Genedlaethol ac Urdd Gobaith Cymru
- Datblygu rhwydwaith o Bencampwyr Busnes Cymraeg
- Cynyddu atebolrwydd Comisiynydd y Gymraeg drwy wneud penodi'r Comisiynydd yn fater i'r Senedd, nid i Lywodraeth Cymru
- Gweithio i ddatblygu trefniadau craffu ac atebolrwydd ar y cyd rhwng Senedd y DU a'r Senedd ar gyfer darlledwyr Cymraeg yng Nghymru
- Parhau i gefnogi annibyniaeth weithredol a golygyddol S4C

CAEL EIN DEMOCRATIAETH YN GWEITHIO

Mae Llafur a Phlaid Cymru wedi tanseilio'r setliad datganoli drwy wthio am fwy a mwy o bwerau i Senedd Cymru tra'n methu â defnyddio'r pwerau sydd eisoes yn bodoli yn effeithiol. Mae sefydlu adran cysylltiadau rhyngwladol a chomisiwn ar gyfiawnder yn enghreifftiau o Lywodraeth Cymru sy'n awchu am bwerau, sy'n chwarae gwleidydda, ac sy'n croesi ffiniau'r setliad cyfansoddiadol.

Fel unoliaethwyr balch, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu mewn Cymru gadarn yn rhan o Deyrnas Unedig gadarn. Bydd Llywodraeth Ceidwadwyr Cymreig yn parchu'r setliad datganoli, yn cryfhau ein democratiaeth ac yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth y DU i gyflawni ar gyfer pobl ar hyd a lled y wlad.

DYMA WNAIFF LLYWODRAETH CEIDWADWYR CYMREIG:

TORRI COST GWLEIDYDDIAETH A'R GWASANAETH SIFIL

- Gwrthdroi'r cynnydd yn nifer Aelodau'r Senedd o 96 i 60, gan arbed £20m y flwyddyn
- Capio nifer Gweinidogion Cymru ar 12, torri cyflog gweinidogol 10% a'i rewi am bedair blynedd
- Lleihau maint gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru
- Rhewi cyflogau cyflogeion Llywodraeth Cymru dros £100,000 dros bedair blynedd
- Sgrapio targedau gweithio o gartref mympwyol ar gyfer staff Llywodraeth Cymru

PARCHU'R SETLIAD DATGANOLI A DIOGELU'R DEYRNAS UNEDIG

- Dileu ymestyn pwerau'r Senedd a refferenda pellach ar y setliad cyfansoddiadol, gan gynnwys gwahanu Cymru o weddill y Deyrnas Unedig
- Gwrthod ymdrechion Llafur a Phlaid Cymru i ddatganoli heddluoedd, cyfiawnder ac elfennau o'r system les
- Rhoi stop ar wario ar faterion annatganoledig, fel cyfiawnder, materion rhyngwladol, cymorth tramor a mewnfudo a dileu Incwm Sylfaenol Cynhwysol a gyllidir gan Lywodraeth Cymru
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i hyrwyddo manteision y Deyrnas Unedig i bobl Cymru